# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 6 Mehefin 2019

Amser: 12.50

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(12.50 - 13.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 2 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 11

(13.00 - 14.00) (Tudalennau 1 - 23)

**Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru**

Barry Hughes, Prif Erlynydd y Goron

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

CYPE(5)-17-19 - Papur 1

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan y Cadeirydd at y Pwyllgor Busnes - Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) - cais am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer adroddiad Cyfnod 1

(Tudalen 24)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-17-19 - Papur i'w nodi 1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

### 3.2 Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) – i ofyn i CAFCASS Cymru am wybodaeth

(Tudalennau 25 – 27)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-17-19 – Papur i'w nodi 2

### 3.3 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Addysg – Gweithredu Diwygiad Diamond

(Tudalennau 28 – 30)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-17-19 – Papur i'w nodi 3

### 3.4 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol – Iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru: craffu dilynol

(Tudalen 31)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-17-19 – Papur i'w nodi 4

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

## 5 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) – trafod y dystiolaeth

(14.00 – 14.10)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Consultation on the Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Bill

| | |
|---|---|
| Tystiolaeth i'r **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** ar gyfer craffu Cyfnod 1 (Saesneg yn unig) | Evidence submitted to the **Children, Young People and Education Committee** for Stage 1 scrutiny |

**Organisation:** Crown Prosecution Service

## 1 The Bill's general principles

### 1.1 Do you support the Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Bill?

Don't have a view

### 1.2 Please outline your reasons for your answer to question 1.1

*(we would be grateful if you could keep your answer to around 1000 words)*

The Crown Prosecution Service will prosecute in accordance with legislation in England and in Wales. Our perspective is influenced by prosecuting in accordance with the restricted availability of the defence due to section 58 of the Children Act 2004 and the outcome of the UK Government review of its operation in 2007.

The Welsh Explanatory Memorandum quotes surveys that highlight the extent to which parental attitudes towards the way children are raised and disciplined are changing. There is however very little research that clarifies the extent to which changing parental attitudes may be attributed to the restrictions imposed by section 58.

The UK Government reviewed the operation of section 58 of the Children Act 2004 in 2007. Its analysis of the evidence resulted in findings that:

- section 58 has improved legal protection for children by restricting the use of the reasonable punishment defence in court proceedings;
- there are no reported significant practical problems with its operation;

- The Crown Prosecution Service’s Charging Standard (raised in 2018) has clarified the boundary between what constitutes common assault and what constitutes assault occasioning actual bodily harm;
- Attitudes and behaviour amongst parents are changing, with younger parents less likely to use smacking as a method of discipline than older parents.

Section 58 was passed to ensure compliance with Article 3 of the European Convention on Human Rights (ECHR), which provides: ”No one shall be subjected to torture or to inhuman or degrading treatment or punishment”.

Against this however the same review quoted the Parliamentary Joint Committee on Human Rights (JCHR) in 2004 that ”there is a risk that in a future case the European Court of Human Rights will find that the continued availability of the reasonable chastisement defence to the offence of common assault is in breach of a child's right to dignity and personal integrity under Article 3, their right to physical integrity under Article 8, and/or their right not to be discriminated against compared to adults in relation to their enjoyment of those rights on grounds of their age. No such incompatibility exists at present, however”.

We note that the UK Government review is now of some age.

Further, we support the comprehensive approach being taken by the Welsh Government with considerable thought being given to changing attitudes to parenting in Wales. This all embracing approach is to be complemented by monitoring and reviewing the effect of the legislation.

At this early stage it is too early for the Crown Prosecution Service to determine what success might be achieved in Wales. We are encouraged by the comprehensive approach being taken in securing data after the legislation comes into force. In our view that such data will assist in determining whether the Welsh Government’s approach delivers on the principles behind the legislation.

**1.3 Do you think there is a need for legislation to deliver what this Bill is trying to achieve?**

*(we would be grateful if you could keep your answer to around 500 words)*

Changing attitudes to parenting in the manner desired will be supported by appropriate legislation. This is because the existing legislation provides a defence and so permits the assault of a child by a person with parenting responsibility albeit limited to common assault.

We welcome the Welsh Government recognition that simply enacting legislation is unlikely to achieve the desired aim. We support the wider intention to provide information, support to parents and to raise awareness both of positive alternatives to physical punishment and the legislative change. It is within this context that prosecutions, together with alternatives to prosecution, can meaningfully assist in delivering the desired aim.

## 2 The Bill's implementation

### 2.1 Do you have any comments about any potential barriers to implementing the Bill? If no, go to question 3.1

*(we would be grateful if you could keep your answer to around 500 words)*

We foresee difficulties in collecting and collating meaningful data establishing what difference the Act will make. It is difficult to estimate the number of children who will be affected by the proposed legislation. Data is to be collected to identify the number of reasonable punishment cases that come to the attention of social services, police and the courts. Surveys may provide an insight into the extent of change in parenting attitudes. However attempts to determine a baseline for comparison with future data simply appear to be producing educated guesses due to the lack of any meaningful data. Paragraph 5, Annexe 7 of the Explanatory Memorandum sets this out as it states that " The figures produced are indicative due to the current non-recording or measurement of the defence of 'reasonable punishment' within policing. All the Welsh forces have not easily been able to produce these figures". This raises a concern as to how meaningful any future assessment of the impact of the Bill will be.

A potential barrier could be found in the expression of public opinion that the Bill would result in criminalising parents for actions in Wales that would in England have a defence within the criminal law.

Wales intends to abolish a defence that will still apply in England. The geographical proximity, single prosecuting authority and court structure covering England and Wales create potential barriers. Further the easy interaction between the populations of England and Wales may result in attitudes in England creating an influence on that in Wales.

### 2.2 Do you think the Bill takes account of these potential barriers?

*(we would be grateful if you could keep your answer to around 500 words)*

The Bill and its Explanatory Memorandum does take some account of these barriers. There appears to be a real commitment to generate data after the Bill is implemented. Annex 6 of the Explanatory Memorandum sets out a useful analysis of New Zealand where data has been relied on in the absence of data within the United Kingdom. Annex 7 sets out work

that has been done with Welsh Police to generate some tangible data for use as a baseline for future comparison although we have referred to some doubt on this data's reliability by referring to paragraph 5 of Annex 7 in our answer to the previous question.

The Welsh Government has worked with the Ministry of Justice to estimate the impact of the Bill's implementation on the Justice system.

As regards the concern about criminalising parents, Annex 4 of the Explanatory Memorandum sets out ongoing work exploring diversion. We note paragraph 18 at page 75 that anticipates out of court disposals possibly being offered to the parent, depending on the circumstances of the case while indicating that in some cases, referring immediately to the CPS for prosecution may be the preferred option. This is complemented by support that will be provided to parents that is discussed within Chapter 4 of the Memorandum. Paragraph 4.11 at page 25 of the Explanatory Memorandum sets out that the police and CPS agrees that a proportionate response in the best interests of the child is essential.

There is no indication of plans for awareness raising in England. We note the sentence at page 42 of the Explanatory Memorandum that sets limits on the geographical spread of the awareness raising campaign where it states that; "the Welsh Government recognises that a change in law must be accompanied by sustained awareness raising in Wales". There may be an assumption by those in England that the same laws that apply in England continue to apply in Wales in the absence of such action. However if a person from England is being prosecuted in Wales as a result of the legislative change a question could arise about the lack of knowledge about the different provisions that apply in Wales.

## 3 Unintended consequences

### 3.1 Do you think there are there any unintended consequences arising from the Bill? If no, go to question 4.1

*(we would be grateful if you could keep your answer to around 500 words)*

The impact on otherwise law-abiding parents. We raise the scenario of prosecuting a person from England who administers corporal punishment to a child when in Wales. Such action would have a separate defence if committed in England, and that person did not have an opportunity to benefit from the awareness raising campaign in Wales. There may be an assumption by those in England that the same laws that apply in England continue to apply in Wales. This may be mitigated somewhat as CPS will amend its legal guidance to reflect legislative change and our guidance is published online so that it is widely available in Wales and in England. However we consider that further action is required in England – whether through advertising in national newspapers or other such action decided on in planning the awareness raising campaign.

Persons convicted for administering corporal punishment in Wales will have different life prospects when compared to otherwise law-abiding persons in England who have the benefit of the defence.

## 4 Financial implications

**4.1 Do you have any comments on the financial implications of the Bill (as set out in Part 2 of the Explanatory Memorandum)? If no, go to question 5.1**

*(we would be grateful if you could keep your answer to around 500 words)*

We support the intention of the Welsh Government to provide financial support for awareness raising and support for parents. A measure of success will be a reduction in need for such financial support as attitudes change.

We do not consider that the costs of prosecuting cases made possible by the Bill will be of great significance to the Crown Prosecution Service.

## 5 Other considerations

**5.1 Do you have any other points you wish to raise about this Bill?**

*(we would be grateful if you could keep your answer to around 1000 words)*

We welcome the indication at page 24 of the Explanatory Memorandum that “A reasonable period after Royal Assent and before the new arrangements are brought into force is proposed” to allow provision of information and support to parents and to raise awareness of the legislative change.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

**CYPE(5)-17-19 - Papur i'w nodi 1**

**Elin Jones AC**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

16 Mai 2019

Annwyl Lywydd

**Y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**

Ysgrifennais atoch ar **14 Mawrth** i gytuno mewn egwyddor ar yr amserlen ar gyfer y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Ar y pryd, nodais fod y Pwyllgor yn fodlon cytuno ar yr amserlen mewn egwyddor, ond efallai y bydd angen iddo'i hailystyried oherwydd nifer yr ymatebion a gafwyd i'n hymgynghoriad ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil. Daeth ein hymgynghoriad i ben ar 14 Mai a chawsom 655 o ymatebion, sydd gryn dipyn yn uwch nag a ddaw i law fel arfer.

Er mwyn ein galluogi i roi sylw digonol i safbwyntiau'r holl ymatebwyr, byddem yn ddiolchgar pe bai modd cael estyniad o bythefnos i baratoi ein hadroddiad Cyfnod 1 (o ddydd Gwener 19 Gorffennaf i ddydd Gwener 2 Awst 2019). Byddai hynny'n sicrhau y bydd ein hadroddiad yn cael ei gyhoeddi mewn pryd i osgoi unrhyw oedi yn y drafodaeth ar yr egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn, a drefnwyd ar gyfer 17 Medi 2019.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

CYPE(5)-17-19 - Papur i'w nodi 2

Julie Morgan AC
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

20 Mai 2019

Annwyl Julie,


**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**

Fel rhan o'n gwaith craffu ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), gwnaethom wahodd CAFCASS Cymru i roi tystiolaeth lafar inni. Wrth ymateb i'n gwahoddiad, rhoddodd CAFCASS Cymru wybod inni, drwy eich swyddogion, ei bod wedi ystyried y cais yn ofalus, ond ei bod yn teimlo nad oedd yn briodol iddi ddod i roi tystiolaeth ar wahân, gan ei bod yn Gyfarwyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru yn hytrach na bod yn sefydliad annibynnol.

Yn sgil y cyfeiriadau a wneir at waith CAFCASS Cymru ym Memorandwm Esboniadol y Bil ac yn y dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu hyd yma, byddem yn ddiolchgar pe gallem gael atebion ysgrifenedig gan CAFCASS Cymru i'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Yn dilyn gohebiaeth â'ch swyddogion, rydym ar ddeall mai'r opsiwn a ffefrir gennych chi a chan sefydliad CAFCASS Cymru yw cyfeirio'r cais hwn drwy Lywodraeth Cymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallem gael y wybodaeth hon erbyn **dydd Mawrth 4 Mehefin**, fel y gall lywio ein dull gweithredu mewn perthynas â'n sesiwn derfynol gyda chi fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil ar 12 Mehefin.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

**ATODIAD**

**1. Hynt y Bil**

A wnewch chi ddarparu manylion am gyfraniad CAFCASS Cymru hyd yma at y broses o ddatblygu'r Bil?

**2. Adnoddau a chapasiti**

A wnewch chi rannu sylwadau CAFCASS Cymru am y cyfeiriadau a ganlyn at CAFCASS ym **Memorandwm Esboniadol** y Bil, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw CAFCASS yn fodlon bod ganddo'r adnoddau a'r gallu i gefnogi'r broses o weithredu'r Bil os caiff ei ddeddfu?

- **Tudalen 34 – Blwch costau heb eu meintioli**

  "Mae costau anhysbys yn cynnwys costau posibl ar gyfer […] y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) Cymru, o ganlyniad i gynnydd posibl yn nifer yr honiadau o ymosodiadau cyffredin ar blentyn neu blant rhieni sy'n ymwneud ag achos mewn llys teulu."

- **Tudalen 80 - Llysoedd Teulu - paragraff 41**

  "Gallai ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith arwain at gynnydd yn yr honiadau bod rhieni'n cosbi'n gorfforol mewn achosion lle mae'r naill riant yn ceisio cryfhau eu hachos yn erbyn y llall mewn achos sy'n ymwneud â'r teulu; byddai'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gorfod ymchwilio. Byddai Cafcass Cymru yn gorfod adrodd ar y mater i'r llys (os oedd llys yn rhan o'r broses), a gallai'r llys orfod dyfarnu ar nifer mwy o faterion. Gallai hyn arwain at lwyth gwaith mwy ac oedi posib."

- **Tudalen 81 - Cafcass Cymru - paragraffau 43-44**

  "Mae gan Cafcass Cymru rôl statudol o roi cyngor i'r Llys Teulu ynglŷn â'r hyn sydd er budd pennaf i'r plentyn mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. Ar ochr breifat y gyfraith h.y. lle nad yw'r rhieni'n gallu cytuno ar drefniadau sy'n ymwneud â'r plentyn ar ôl gwahanu, a'u bod wedi cyflwyno cais i'r llys, mae'n rhaid i Cafcass Cymru gynnal archwiliadau diogelu gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ynghyd â chyfweliadau diogelu gyda'r rhieni. Mae'n debygol y bydd dileu'r amddiffyniad yn ychwanegu at y wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r llysoedd. Wedi'r cam hwn, os yw Cafcass Cymru yn weithgar gyda theulu ac yn dod ar draws

problemau o’r fath (neu os oes honiadau) yna bydd dyletswydd arno i sôn wrth y gwasanaethau cymdeithasol a’r llys, a allai arwain at rywfaint o waith ychwanegol."

**3. Y perygl o adroddiadau maleisus**

A wnewch chi ddarparu sylwadau CAFCASS Cymru am y cyfeiriad a ganlyn at adroddiadau maleisus yn y **Memorandwm Esboniadol?** A fyddai modd i CAFCASS Cymru nodi pa asesiad a wnaed, os o gwbl, o'r perygl o adroddiadau maleisus mewn achosion cyfraith breifat, ac ym mha ffordd y mae CAFCASS Cymru yn rhagweld y gallai hyn effeithio ar ei gwaith?

> “Ymddengys fod cysondeb ymhlith y pedwar heddlu yng Nghymru mewn perthynas â'r categorïau o droseddau a gofnodwyd. Nodwyd bod cosb gyfreithlon wedi'i defnyddio fel amddiffyniad neu wedi'i hystyried yn y broses o wneud penderfyniad mewn tua 12% o'r categorïau o droseddau a gofnodwyd ac a enwyd. Roedd themâu trawsbynciol a oedd yn ymwneud ag adroddiadau maleisus gan gynbartneriaid yn gyffredin. Rhoddwyd sylw blaenllaw i faterion fel mynediad cyfreithiol a materion a oedd yn ymwneud â chymorth ariannol.” (Tudalen 99, paragraff 12)

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

**CYPE(5)-17-19 - Papur i'w nodi 3**

Kirsty Williams, AC
Y Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru

21 Mai 2019

Annwyl Kirsty

**Gweithredu Diwygiadau Adolygiad Diamond**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi gwneud gwaith dros y blynyddoedd diwethaf i graffu ar weithrediad yr adolygiad gan yr Athro Syr Ian Diamond o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru.

Fel rhan o'i waith craffu parhaus ar ddiwygiadau Diamond, mae'r Pwyllgor yn gwneud darn byr o waith i asesu'r cynnydd o ran eu gweithredu. Er mwyn helpu i lywio ein gwaith, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am y materion a ganlyn.

1. Y cynnydd o ran gweithredu

Roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad adolygiad Diamond yn flaenorol fod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn casglu "basged o nwyddau" flynyddol ac, o bosibl, yn cyhoeddi ei phris. Yn dilyn hynny, ymgynghorodd CCAUC ar hyn a dywedodd y byddai'n darparu adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru ond na fyddai'n cyhoeddi ei ganfyddiadau. Mewn perthynas â'r argymhelliad hwn, a allwch chi gadarnhau:

- A yw'r adroddiadau hyn yn dangos unrhyw dystiolaeth o gynnydd mewn costau eraill i fyfyrwyr?
- Beth mae'r adroddiadau'n ei ddangos yn ehangach?
- Beth yw sail y cytundeb â CCAUC i beidio â chyhoeddi'r wybodaeth hon?
- A fydd y penderfyniad i beidio â chyhoeddi'r wybodaeth hon yn cael ei adolygu?

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'n gweithio gyda rhanddeiliaid i fapio'n fanwl y gwaith ystadegol a'r gwaith ymchwil sydd ei angen i werthuso gweithrediad ac effaith newidiadau a diwygiadau. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith hwn ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau neu werthusiadau a allai fod wedi dechrau neu wedi dod i ben eisoes?

Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro y byddai'n gweithio gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i weithredu system o daliadau cynnal a chadw misol cyn gynted ag sy'n ymarferol ac y bydd angen iddi drafod goblygiadau hyn. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran hyn ac ar asesiad Llywodraeth Cymru o'r goblygiadau?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn gweithio gyda Phrifysgolion Cymru a CCAUC i ystyried sut y gellid gweithredu a gweinyddu Cynllun Ysgoloriaeth Ymchwil Ôl-raddedig Cymru a phryd y gellid gwneud hynny. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran hyn?

A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed ynghylch prydlondeb cymorth y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar gyfer diwygiadau cyllid myfyrwyr Llywodraeth Cymru. Hefyd, a gafwyd sicrwydd hyd yn hyn gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o ran cyflawni'r diwygiad yn y dyfodol?

2. Effaith ar les myfyrwyr

A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad cynnar o'r effaith y mae canolbwyntio'r cymorth ar gostau byw wedi'i chael ar les carfan mis Medi 2018 wrth iddi nesáu at ddiwedd y flwyddyn academaidd? Os felly, beth oedd y canfyddiadau?

3. Y Rhagolygon a'r rhagdybiaethau a wnaed

A yw nifer y myfyrwyr yng ngharfan 2018/19 sydd wedi manteisio ar gymorth ariannol i fyfyrwyr yn cyfateb i fodel Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran y nifer sydd wedi manteisio arno a maint y dyfarniadau grant cynnal a chadw?

Mae'r cynnydd tebygol mewn niferoedd rhan-amser ac ôl-raddedig yn gadarnhaol i'r sector, ac yn cael ei groesawu. A allwch chi gadarnhau sut mae'r cynnydd hwn wedi effeithio ar gostau a'r rhagdybiaethau cynllunio refeniw yn y dyfodol y gwnaethoch eu rhannu â'r Pwyllgor yn eich llythyr dyddiedig 05 Rhagfyr 2018?

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y mae'r newid yn nhrothwy ad-dalu benthyciadau myfyrwyr o fis Ebrill 2018 wedi'i chael ar fforddiadwyedd y diwygiadau?

Nid yw'n ymddangos bod y cyllid ychwanegol a ddarparwyd i CCAUC yn 2018-19 ar gyfer cyllid ymchwil ac arloesi yn gyllid rheolaidd a bwriedir iddo gael ei wario dros ddwy flynedd academaidd. A allwch chi gadarnhau:

- Beth yw ffynhonnell yr arian hwn?
- Beth yw'r rhesymeg dros ei neilltuo ar gyfer ymchwil yn hytrach na chaniatáu i CCAUC benderfynu ar ei ddyraniad?

4. Cymorth costau byw a'r Cyflog Byw Cenedlaethol

Argymhellodd Syr Ian Diamond y dylai'r grant cynnal a chadw / cymorth benthyciad sydd ar gael i fyfyriwr fod yn gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae cyfanswm y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr ar gyfer 19/20 wedi ei uwchraddio yn unol â'r cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol, sydd i'w

groesawu, ond gwnaed hyn drwy gynyddu swm y benthyciad yn unig ac nid y grant cynnal a chadw, sy'n parhau i fod yn £8,100. Pe bai hwn yn bolisi cyson yn y dyfodol, byddai gwerth y grant cynnal a chadw’n cael ei erydu, wrth gwrs. A allwch chi gadarnhau:

- Beth yw polisi a bwriadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o ran uwchraddio'r grant cynnal a chadw?
- Pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis uwchraddio swm y benthyciad yn unig a pheidio â chymhwyso'r uwchraddio ar draws y benthyciad a'r grant cynnal a chadw ar gyfer 19/20?
- Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi uwchraddio'r grant sylfaen gyffredinol ar gyfer 19/20 hefyd, sy'n parhau i fod yn £1,000?
- Pa rhagdybiaethau y mae rhagolygon ariannol Llywodraeth Cymru yn eu cynnwys o ran uwchraddio'r grant cynnal a chadw?

5. Dyraniad Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 ar gyfer 2019-20 - gwaith dilynol ar y gyllideb

A all Llywodraeth Cymru ddarparu:


- Dyraniadau terfynol 19-20 o fewn y Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 gan gynnwys Addysg Bellach, Dysgu Oedolion yn y Gymuned, 6ed Dosbarth a dyraniadau materol eraill fel y nodwyd yn eich llythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 05 Rhagfyr 2018;
- Y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau ar ddyfarniadau cyflog Addysg Bellach, na arweiniodd at streicio mae’n falch gennyf ddeall, a manylion y setliad a wnaed gan gynnwys a yw'r setliad yn un amlflwydd ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pensiynau;
- Manylion unrhyw ymrwymiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud mewn perthynas â chyflog Addysg Bellach yn y dyfodol y tu hwnt i 19/20 os o gwbl; a
- Gwybodaeth ynglŷn â sut y cyfrifir y codiadau / lwfansau amddifadedd, teneurwydd poblogaeth a chyfrwng Cymraeg ar gyfer 19/20.

6. Sefydliadau Addysg Bellach: dyraniadau cyllid

A allwch chi ddarparu manylion am y dyraniad cyllid terfynol i bob sefydliad Addysg Bellach ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019/20, gan gynnwys dadansoddiad fesul elfen gyllido (h.y. codiadau, cynnal a chadw, rhan-amser, amser llawn ac ati)?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb i’r uchod. Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol, ond er gwybodaeth ichi, bydd CCAUC yn bresennol yn y Pwyllgor ar 4 Gorffennaf i drafod dyraniad Addysg Uwch ar gyfer blwyddyn academaidd 19/20.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

**CYPE(5)-17-19 - Papur i'w nodi 4**

**Vaughan Gething AC**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

24 Mai 2019

Annwyl Vaughan


**Iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru: gwaith craffu dilynol**

Yn gynharach eleni, fe wnaethom gyfnewid gohebiaeth yn ymwneud â **gwaith yn dilyn** ein hymchwiliad i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru, a gynhaliwyd yn 2017.

Yn ein **llythyr dyddiedig 16 Ionawr 2019,** roeddem yn cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma, ond roedd gennym bryderon dwys ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed mewn perthynas â sefydlu unedau mamau a babanod yng Nghymru yn benodol.

Yn eich ymateb, dyddiedig **7 Chwefror 2019** fe wnaethoch gadarnhau'ch cynnig i roi diweddariad i'r Pwyllgor bob chwe mis, ac rydym yn ddiolch ichi am hynny. Rydych hefyd wedi ymrwymo i roi syniad inni o'r cerrig milltir yr ydych yn disgwyl eu cyrraedd, bob chwe mis, rhwng nawr a diwedd y Cynulliad hwn. Er bod y Pwyllgor yn gobeithio cael y wybodaeth hon cyn gynted â phosibl, rydym yn nodi'ch bod yn bwriadu ei darparu yn eich diweddariad cyntaf, ac rydym yn disgwyl hwnnw ddechrau mis Awst 2019. Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth honno yn ystod y toriad er mwyn inni fedru parhau i graffu'n ddigonol, yn gadarn ac yn deg ar yr hyn sy'n cael ei wneud yn y maes hwn, ac er mwyn inni, fel Pwyllgor, fedru cytuno ar y camau nesaf ddechrau'r tymor nesaf fel mater o flaenoriaeth.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565